

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, gallwch gael rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo i fwrw eich pleidlais drosoch.

Os na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol am resymau sy'n gysylltiedig â'ch galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth, a'ch bod ond yn dod yn ymwybodol o hyn **ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais**, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng.

Gallwch wneud cais hyd nes **5pm ar ddiwrnod y bleidlais**.

Dim ond yng Nghymru y mae'r ffurflen hon yn berthnasol.

I bleidleisio drwy ddirprwy, rhaid i chi a'ch dirprwy fod wedi eich cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio.

Mae'r rheolau ynghylch pwy all fod yn ddirprwy yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad yr ydych am bleidleisio ynddo:

Yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol:

- Gall dirprwy bleidleisio dros berthnasau agos a hyd at ddau berson arall mewn etholiad neu refferendwm. Priod, partner sifil, rhiant, nain/mam-gu neu daid/tad-cu, brawd, chwaer, plentyn, wŷyr neu wyres yw perthnasau agos yr ymgeisydd.

Yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau:

- Gall dirprwy bleidleisio dros uchafswm o 4 o bobl. Ni all mwy na 2 o'r bobl hynny fod yn etholwyr domestig. Mae etholwyr domestig yn bleidleiswyr nad ydynt yn bleidleiswyr tramor nac yn bleidleiswyr gwasanaeth. Mae etholiadau Senedd y DU yn cynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau, a deisebau adalw.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.

Sut mae gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Gofynnwch i rywun sy'n fodlon ac yn gallu bod yn ddirprwy i chi a phleidleisio ar eich rhan.
- Llenwch y ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam fod angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy.
- Mae'n rhaid i chi gael person priodol i gefnogi'ch cais. Gweler y nodiadau isod am wybodaeth ynghylch pwy all gefnogi'ch cais.
- Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen wedi'i chwblhau a rhowch eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen yr wybodaeth hon i atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.
- Dim ond **ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais** y gellir defnyddio'r ffurflen hon.
- Rhaid i'ch ffurflen gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol **cyn 5pm ar ddiwrnod y bleidlais**.
- **Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.** Gallwch ddod o hyd i'w manylion a rhagor o wybodaeth yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi wneud cais i gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

Pwy all gefnogi fy nghais?

Gall eich cais gael ei gefnogi gan:

- cyflogwr neu berson awdurdodedig arall yn y gweithle (os yn gyflogedig)
- person sy'n eich adnabod chi ac sydd ddim yn perthyn i chi (os yn hunangyflogedig)

Os ydych yn hunangyflogedig, mae'n rhaid i'ch cefnogwr fod yn 16 oed neu'n hŷn i gefnogi'ch cais ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol. Mae'n rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn i gefnogi pob cais arall.

Mae'n rhaid i'ch cefnogwr gwblhau'r datganiad perthnasol yn adran 8, 9 neu 10.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy brys yng Nghymru yn seiliedig ar alwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cadarnhau a yw eich cais wedi'i dderbyn neu ei wrthod.
- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn dweud wrth eich dirprwy pryd a ble i bleidleisio ar eich rhan.
- Rhaid i chi ddweud wrth eich dirprwy sut yr ydych am iddynt bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid, neu ganlyniad.
- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio.

Datganiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen gais hon. Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data.

Eu sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth dylech gyfeirio at eu hysbysiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i'w gwefan a'u manylion cyswllt yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy brys yng Nghymru yn seiliedig ar alwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Dim ond un person a all gofrestru am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. Gallwch ddod o hyd i'w gyfeiriad yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (lle rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post/BFPO

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae darparu e-bost a rhif ffôn yn ffordd gyflym a hawdd o gysylltu â chi am eich cais.

2 Pwy ydych chi eisiau bod yn ddirprwy i chi?

Enw llawn

Perthynas deuluol (os yw'n gymwys)

Cyfeiriad llawn

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

3 Ym mha etholiad(au) ydych chi eisiau dirprwy?

Rwyf am bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad(au) a gynhelir ar:

| | | | | | |
|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| D | D | M | M | B | B |

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy brys yng Nghymru yn seiliedig ar alwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

4 Eich manylion cyflogaeth a'r rheswm pam na allwch bleidleisio yn bersonolbersonol

Llenwch un o'r adrannau perthnasol yn unig.

4A – Rwy'n hunangyflogedig fel (rhowch deitl swydd):

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n gysylltiedig â'm galwedigaeth:

4B – Rwyf wedi fy nghyflogi gan (rhowch enw a chyfeiriad y cyflogwr):

Fel (rhowch deitl swydd):

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n gysylltiedig â'm cyflogaeth:

4C – Ticiwch y math o bleidleisiwr sy'n gwasanaethu sy'n berthnasol:

- Rwy'n aelod o'r lluoedd arfog
- Rwy'n was y Goron
- Rwy'n gyflogai y British Council
- Rwy'n briod neu'n bartner sifil i bleidleisiwr sy'n gwasanaethu
- Rwy'n blentyn i bleidleisiwr sy'n gwasanaethu

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n gysylltiedig â'm gwasanaeth (neu wasanaeth fy mhriod/partner sifil neu riant/gwarcheidwad):

5 Pryd ddaethoch yn ymwybodol o'r rheswm?

Amser:

Dyddiad

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| D | D | M | M | B | B | B | B |

6 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r person yr wyf wedi'u henwi fel fy nirprwy ac yn cadarnhau eu bod yn fodlon ac yn gallu cael eu penodi i bleidleisio ar fy rhan.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall bod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd, a gellir ei chosbi ar gollfarn drwy garchar am hyd at chwe mis a/ neu ddirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| D | D | M | M | B | B | B | B |

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y ffin lwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

7 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| D | D | M | M | B | B | B | B |

